# Templed: Datganiad Ysgol
# Y Grant Datblygu Disgyblion

Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academaidd 2025 i 2026.

Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.

Os yw'ch rhifau yn 5 neu lai, defnyddiwch * yn lle'r dyraniad er mwyn diogelu plant rhag cael eu hadnabod.

**Trosolwg Ysgolion**

| Manylion | Data |
|---|---|
| Enw'r ysgol | Ysgol Gymraeg Pwll Coch |
| Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol | 296 (Ar y gofrestr) 252 (Llawn amser) |
| Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD | 16% |
| Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn | 17/09/25 |
| Dyddiad y caiff ei adolygu | 17/09/26 |
| Awdurdodwyd y datganiad gan | Dewi Rees |
| Yn arwain ar y GDD | Dewi Rees |
| Llywodraethwr sy'n arwain | Nona Gruffudd-Evans |

## Trosolwg Cyllid

| Manylion | Swm |
|---|---|
| Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academaidd hon | £56,350 |
| | |
| | |
| **Cyfanswm cyllideb y flwyddyn academaidd hon** | £56,350 |

## Rhan A: Cynllun Strategaeth

### Datganiad o fwriad

- Parhau i gynnig darpariaeth Lles unigol er mwyn cwrdd ag anghenion ein
- dysgwyr mwyaf bregus yn llawn.
- Parhau i ddatblygu darpariaeth ADY yr ysgol er mwyn cwrdd â holl ofynion y
- ddeddf ADY.
- Gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yr ysgol drwy ymyrraethau
- pwrpasol.
- Sicrhau fod bob disgybl yn cael mynediad at bob cyfle a phrofiad gan
- sicrhau nad yw materion ariannol yn atal disgyblion.

### Canlyniadau a fwriedir

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

| Canlyniad a fwriedir | Meini prawf llwyddiant |
|---|---|
| Mae ymyraethau llythrennedd a rhifedd wedi eu gwreiddio ar draws yr ysgol sydd yn cefnogi cynnydd disgyblion. | Bydd bob disgybl sydd wei eu hadnabod fel disgybl sydd angen cefnogaeth ychwanegol, wedi derbyn cefnogaeth cyson, bwriadus ac yn gwneud cynnydd da o ganlyniad. |
| Mae rhaglenni lles ar waith i ddisgyblion bregus yr ysgol, gan gynnwys Therapi Chwarae, ELSA ac ymyrraethau grŵp. | Bydd bob disgybl sydd ag anghenion lles yn derbyn cefnogaeth priodol i'w cefnogi gydag anghenion lles. |
| Mae bob disgybl yn cael mynediad llawn at y profiadau allgyrsiol mae'r ysgol yn cynnig. | Ni does unrhyw ddisgybl yn colli profiad allgyrsiol o ganlyniad i faterion ariannol. |

### Gweithgarwch yn y flwyddyn academaidd hon

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academaidd hon** i gyflawni y canlyniadau a fwriedir a restrir uchod.

Dosbarth Llythrennedd i ddarparu sesiynau dyddiol i ddysgwyr yr Ysgol Uchaf.

CALU i ddarparu sesiynau llythrennedd a rhifedd dyddiol i ddisgyblion Blynyddoedd 1 a 2.

| |
|---|
| Sesiynau ELSA i ddisgyblion sydd ag anghenion lles ar draws yr ysgol. |

**Dysgu ac addysgu**

Cost wedi'i chyllidebu: £32,061

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| CALU i arwain sesiynau llythrennedd bob bore i ddisgyblion yr Ysgol Uchaf. | Cynnydd darllen a sillafu disgyblion i ddangos gwerth yr ymyraeth. |
| Cynorthwy-ydd I arwain sesiynau llythrennedd a rhifedd I ddisgyblion Blynyddoedd 1&2 | Cynnydd darllen, sillafu a gwaith rhif disgyblion i ddangos gwerth yr ymyraeth. |

**Strategaethau ehangach (er enghraifft a lle bo hynny'n berthnasol, Iechyd a Lles, Cwricwlwm a Chymwysterau, Arweinyddiaeth a Chodi Dyheadau)**

Cost wedi'i chyllidebu: £24,289

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| Cefnogaeth Lles gan gynnwys:<br>ELSA<br>Therapi Chwarae<br>Talkabout | Llwyddiant y sesiynau y llynedd. |

Cyfanswm cost y ceisiadau: £**56,350**

## Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academaidd flaenorol

### Canlyniadau'r GDD

Mae hyn yn rhoi manylion yr effaith a gafodd ein gweithgarwch GDD ar ddisgyblion ym mlwyddyn academaidd 2024 i 2025.

| Gweithgarwch | Effaith |
|---|---|
| Athro i arwain sesiynau llythrennedd bob bore i | Roedd asesiadau diwedd blwyddyn yn dangos bod y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi gwneud cynnydd da yn |

| | |
|---|---|
| ddisgyblion yr Ysgol Uchaf. | eu gwaith, o ganlyniad i'r ymyraethau ychwanegol. Roedd holiaduron yn dangos bod eu hyder wedi gwella'n sylweddol yn ogystal. |
| Cynorthwy-ydd I arwain sesiynau llythrennedd a rhifedd I ddisgyblion Blynyddoedd 1&2 | Roedd asesiadau diwedd blwyddyn yn dangos bod y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi gwneud cynnydd da yn eu gwaith, o ganlyniad i'r ymyraethau ychwanegol.<br>O ganlynaid i'r gefnogaeth rhifedd ychwaengol, mae'r mwyafrif o ddisgyblion nawr yn gweithio ar y lefel disgwyliedig ar gyfer eu hoedran. |
| Cyflogi Therapydd Chwarae am 1 diwrnod yr wythnos | Bu'r Therapydd Chwarae yn cynnig sesiwn wythnosol i grwpiau bregus o ddysgwyr. Fodd bynnag, daeth y ddarpariaeth I ben ar ddiwedd y flwyddyn Ysgol. |
| Cefnogaeth Lles gan gynnwys:<br>ELSA<br>Therapi Chwarae<br>Talkabout | Mae'r rhaglen ELSA wedi ei wreiddio ar draws yr ysgol, gydag unigolion yn derbyn cefnogaeth wythnosol. Mae adborth disgyblion a staff yn nodi bod effaith gadarnhaol ar les unigol y dysgwyr. |

**Rhaglenni a ddarperir yn allanol**

Dylech gynnwys enwau unrhyw raglenni a brynwyd gennych yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Bydd hyn yn ein helpu i ganfod pa rai sy'n boblogaidd yng Nghymru.

| Rhaglen | Darparwr |
|---|---|
| ELSA | Hyfforddiant CCD |